

Yr Adfent

Tyrd, ddirgelwch cuddiedig.
Tyrd, berson tu hwnt i bob deall.
Tyrd, lawenydd diddarfod.
Tyrd, fy anadl a'm heinioes.
Tyrd, gysur fy enaid gwan.
Tyrd, fy niddanwch tragwyddol.

Simeon y Diwinydd Newydd

EMYNAU

Cyfieithiad o emyn Lladin o'r ddeunawfed ganrif yw hwn sy'n disgwyl dyfodiad Iesu i'r byd:

O tyred di, Emanwêl,
a datod rwympau Isrâel
sydd yma'n alltud unig, trist
hyd ddydd datguddiad Iesu Grist:

O cân, O cân: Emanwêl
ddaw atat ti, O Isrâel.

O tyred, olau'r Seren Ddydd,
diddana ein calonnau prudd;
gwasgara ddu gymylau braw
a chysgod angau gilia draw:

O cân, O cân: Emanwêl
ddaw atat ti, O Isrâel.

Emyn Lladin o'r 18fed ganrif cyf. J. D. Vernon Lewis (*Caneuon Ffydd*: 432)

Mae'r emyn hwn yn cyfleu neges ganolog yr Adfent o farn ac ail-ddyfodiad Iesu:

Wele'n dyfod ar gymylau
 Farnwr dyn a brenin nef;
 Myrdd myrddiynau sydd o'i seintiau
 Yn ei amgylchynu ef;
 Haleliwia,
 Iesu a deyrnasa byth.

1 *Cyf. Psalmiau a Hymnau S.P.C.K.* 2 a 3 Benjamin Francis (*Emynau'r Llan*: 24)

Mae'r cysyniad o ddyfodiad Iesu i'r galon unigol yn amlwg yn emyn Ieuan o Lŷn:

Wele wrth y drws yn curo,
 Iesu, tegwch nef a llawr;
 clyw ei lais ac agor iddo,
 paid ag ofni funud awr;
 agor iddo,
 mae ei ruddiau fel y wawr.

Ieuan o Lelyn (*Caneuon Ffydd*: 317)

Mae adlais o eiriau Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid yn yr emyn hwn, 'Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio. Gadewch inni, felly, roi heibio weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau'r goleuni' (Rhufeiniaid 13: 12):

Clywch yr eglur lais yn galw,
 "Crist," medd ef, "gerllaw y sydd";
 Holl freuddwydion y tywyllwch
 Bwriwch ymaith, blant y dydd.

Wele'r Oen a hir ddisgwyliwyd,
 Gyda phardwn daw o'r nef,
 Awn ar frys gan wylo dagrau
 Am faddeuant ato ef.

Cyf. Emynau Mynyw (Emynau'r Llan: 23)

Fel llawer o garolau'r plygain mae'r emyn hwn yn cwmpasu bywyd Iesu o Fethlehem i Galfaria:

Wele, cawsom y Meseia,
cyfaill gwerthfawroca' 'rïoed;
darfu i Moses a'r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
aeth i'r lladdfa yn ein lle,
swm ein dyled fawr a dalodd
ac fe groesodd filiau'r ne';
trwy ei waed, inni caed
bythol heddwch a rhyddhad.

Dafydd Jones (*Caneuon Ffydd*: 441)

Nid aros gyda'r geni'n unig mae Ann Griffiths ond crynhoi bywyd Iesu yn ystod ei weinidogaeth:

Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
a Rheolwr popeth sydd ...

Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
efe ddiodefodd angau loes,
nerthodd freichiau'i ddiennyddwyr
i'w hoelio yno ar y groes; ...

Ann Griffiths (*Caneuon Ffydd*: 446)

GWEDDIAU**Hiraethwn am gael dy gyfarfod a thyrd i'n bywydau i'n hysgwyd a'n herio:**

Dduw y tlodion,
 hiraethwn am dy gyfarfod,
 ond bron â'th gollu wnawn;
 ymdrechwn i roi cymorth i ti,
 ond darganfod ein hangen a wnawn.

Tarfa ar ein cysur
 â'th noethni;
 cyffwrdd ein hunanoldeb
 â'th dlodi,
 tor ar draws ein heuogrwydd
 â gras dy groeso,
 yn Iesu Grist. Amen.

Janet Morley

Cwestiwn ac ateb i Mair y forwyn:

Dywed, Fair, pa bryd i'n llesu
 Y derbyniaist i'th fru Iesu?
 'Gwelais gennad Duw yn canu
 Ger fy mron a'm syfrdanu.'

Dywed, Fair, pa nefol riniau
 Ganodd Gabriel ar ei liniau?
 'Afe, ffiol trugareddau
 I druenus hil camweddau.'

Dywed, Fair, pa orfod fu
 Iti dderbyn Duw i'th fru?
 'Rhydd y creodd Duw bob oed,
 Ni thresbasodd ef erioed.'

Henffych well, O ufudd eiddgar,
 Syndod y seraffiaid treiddgar,
 Mam a morwyn, dôr a ffynnon
 Y Goleuni a ddaeth i ddynion. Amen.

Saunders Lewis

Paratown ein hunain ar gyfer dyfodiad Iesu:

Diolchwn i ti, O Arglwydd, am roi i ni dy Fab Iesu Grist,
a ddaeth atom yn ostyngedig yn nhlodi Bethlehem.
Wrth i ni baratoi i ddathlu ei eni,
glanha ein calonnau a'n bywydau
er mwyn i ni allu ei groesawu'n llawen
yn Waredwr ein bywyd,
a phan ddaw mewn gogoniant
y byddwn yn bobl barod iddo ef,
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân
byth heb ddiwedd. Amen.

Frank Colquhoun

Boed i wawr ei bresenoldeb dorri ar ein byd:

Dihuna

dy fyd cysglyd,
Dduw'r Adfent,
i gyfarch
gwawr dy bresenoldeb
â llawenydd llygad agored.

Cyhoedda

eto
mewn gair a chân
dy fwriad tragwyddol
i gau'r llwybr
sy'n arwain i ddisberod
a gwneud y ffordd sy'n arwain i'r uchelder
yn ddiogel. Amen.

David Jenkins

**Daethost i'r byd yn gyflawniad o broffwydoliaeth, yn wireddiad o
bwrpas Duw ac yn fynegiant o'i gariad:**

Ein Harglwydd Iesu Grist,
 rydym yn cofio heddiw
 sut y bu i nifer edrych ymlaen at dy ddyfodiad,
 ond cofiwn hefyd
 fod parhau i gredu wedi mynd yn fwy anodd
 wrth i'r blynyddoedd lithro heibio;
 sut y bu i obaith gychwyn cloffi a breuddwydion ddechrau marw,
 nes, yn y diwedd, fe ddaethost –
 yn gyflawniad o'r broffwydoliaeth,
 yn wireddiad o bwrpas Duw,
 yn fynegiant pendant o'i gariad. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

Gweddi ar ddechrau'r Adfent:

Erbyn hyn, ein Tad, yr ydym yn dechrau meddwl am y Nadolig. Anrhegion a chardiau, addurniadau a dramâu'r geni, paratodau yn y cartref, y capel, yr eglwys a'r ysgol: edrychwn ymlaen oherwydd y mae hyn i gyd yn dwyn hapusrwydd arbennig. Wrth i ni gael ein hatgoffa am enedigaeth Iesu, cymorth ni i ddeall yr hyn a wnawn, ac i weld pwysigrwydd yr hyn sydd y tu ôl i'n gweithgareddau a'n paratodau. Boed i ni fod yn barod i groesawu'r Nadolig pan ddaw, fel y cofiwn enedigaeth Iesu gyda diolchgarwch mawr, gan glywed eto neges dy gariad; Haleliwia! Amen.

R. Chapman a D. Hilton

ADNODAU

Mae'r paratodau ar gyfer y Nadolig yn dechrau gyda Duw yn dewis merch ifanc gyffredin:

Yn y chweched mis anfonwyd yr angel Gabriel gan Dduw i dref yng Ngalilea o'r enw Nasareth, at wryf oedd wedi ei dyweddio i ŵr o'r enw Joseff, o dŷ Dafydd; Mair oedd enw'r wryf.

Luc 1: 26–27

Grym ysbryd Duw ei hun oedd yn gyfrifol am y wyrth:

Atebodd yr angel hi, “Daw’r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw.”

Luc 1: 35

Mae’r proffwyd yn disgwyl yn eiddgar am ‘ein Duw ni’:

Yn y dydd hwnnw fe ddywedir,
 “Wele, dyma ein Duw ni.
 Buom yn disgwyl amdano i’n gwaredu;
 dyma’r ARGLWYDD y buom yn disgwyl amdano,
 gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth.”

Eseia 25: 9

Gweledigaeth fawr yr Ail Eseia yw paratoi’r genedl ar gyfer dyfodiad y Meseia:

Llais un yn galw,
 “Paratowch yn yr anialwch ffordd yr ARGLWYDD,
 unionwch yn y diffeithwch briffordd i’n Duw ni.”

Eseia 40: 3

Mae dyddiau digofaint yn mynd heibio, bydd y dyfodol yn llaw bachgen a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd ef:

Canys bachgen a aned i ni,
 mab a roed i ni,
 a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
 Fe’i gelwir, “Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
 Tad bythol, Tywysog heddychlon”.

Eseia 9: 6

Mae’r proffwyd yn gweld dydd barn yn agosáu pan fydd Duw yn anfon ei gennad i baratoi’r ffordd:

“Wele fi’n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o’r blaen; ac yn sydyn fe ddaw’r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i’w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod,” medd ARGLWYDD y Lluoedd.

Malachi 3: 1

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Cyfnod o ymprydio cyn y Nadolig oedd tymor yr Adfent yn wreiddiol. Roedd yn dechrau ar Sul y Dyfodiad, sef y pedwerydd Sul cyn y Nadolig. Yn ôl pob tebyg arferiad ddaeth o’r Almaen ganol yr ugeinfed ganrif yw Calendr yr Adfent.

Yn ystod tymor yr Adfent dethlir Gŵyl Sant Niclas ar 6 Rhagfyr. Dyma Sifer Klaus yn yr Iseldiroedd, ac o’r enw hwn y cawsom Santa Clos. Fe’i ganed yn Lycia yn Asia Leiaf o gwmpas OC 270 ac yn ddwy ar bymtheg oed fe’i hordeiniwyd yn offeiriad. Er ei fod yn ŵr cyfoethog, ei ddymuniad oedd rhannu ei ffortiwn efo pobl dlawd a hynny yn y dirgel heb i neb wybod pwy oedd yn dosbarthu’r anrhegion. Sant Niclas ydi nawddsant gwlad Groeg a Rwsia.

Mae ail Sul yr Adfent yn Sul y Beibl. Sul i gofio am orchestion William Morgan, William Salesbury a Thomas Charles o’r Bala a oedd i raddau helaeth iawn yn gyfrifol am sefydlu’r Feibl Gymdeithas ym 1804.

Fel mae tymor yr Adfent yn dirwyn i ben dathlwn Droad y Rhod neu Alban Arthen, y dydd byrraf ar 21 Rhagfyr. Yn ôl hen arferiad rhoddwyd torch o ganghennau bytholwyrdd i warchod y beudy. Hen goel arall oedd y byddai’r gwartheg am hanner nos yn penlinio i gydnabod geni Iesu Grist.

Roedd 21 Rhagfyr hefyd yn Ddydd Gŵyl Tomos ac o pa le bynnag y byddai’r gwynt yn chwythu ar y diwrnod hwn yno y byddai am weddill y gaeaf.